**<u>Gwrandawiad Camymddwyn Cyflym – Casgliad</u>**

**Swyddog:** Cyn DI 1875 Emma Gardner
**Cyfeirnod yr Achos:** CM/33/22
**Dyddiad y Gwrandawiad:** 17 Awst 2026
**Cadeirydd:** Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman

## Cefndir

Cyfeiriwyd y mater hwn at Wrandawiad Camymddwyn Cyflym o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod Priodol fod yr amodau arbennig wedi'u bodloni:

- Mae digon o dystiolaeth, ar ffurf datganiadau a dogfennau ysgrifenedig, i sefydlu yn ôl yr hyn sy'n debygol fod yr ymddygiad yn cyfateb i gamymddwyn difrifol.
- Mae o ddiddordeb i'r cyhoedd i'r swyddog beidio â bod yn swyddog heddlu'n ddi oed.

Wrth ystyried y mater hwn, rwyf wedi ystyried cynnwys bwndel yr achos camymddwyn, y dadleuon a wnaed ar ran yr Awdurdod Priodol a'r cyfle am unrhyw ddadleuon ar ran y cyn swyddog. Rwyf yn nodi fod Cyn Dditectif Arolygydd Gardner wedi ymddiswyddo o Heddlu Gogledd Cymru ac mai ei diwrnod olaf o wasanaeth oedd 10 Awst 2026.

Rwyf yn nodi ymhellach fod y cyn swyddog heddlu yn cael ei chynrychioli, ac wedi cael y cyfle i gael cyngor cyfreithiol ac, yn bwysicach, wedi derbyn y ffeithiau a bod ei hymddygiad yn cyfateb i gamymddwyn difrifol. Yn ystod y gwrandawiad nid oedd dadl ynghylch y ffeithiau sylfaenol. Nid oedd angen felly i'r gwrandawiad oedi er mwyn sefydlu'r ffeithiau hynny. Yr unig fater i'w benderfynu oedd asesu'r ymddygiad a'i ddifrifoldeb yn briodol.

Mae'r mater hwn yn codi o euogfarn y cyn DI Gardner yn dilyn achos llys yn Llys y Goron. Ar 8 Gorffennaf 2026, yn Llys y Goron Caernarfon, cafodd ei heuogfarnu o achosi cyfrifiadur i gyflawni rhywbeth yn fwriadol er mwyn sicrhau mynediad anawdurdodedig i raglen neu ddata, yn groes i adran 1(1) a (3) Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990. Roedd y drosedd yn berthnasol i fynediad anawdurdodedig mynych i systemau'r heddlu rhwng 19 Ionawr 2022 a 23 Medi 2022.

## Honiad

Honnir fod y cyn DI Gardner wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol, sef:

- **Ymddygiad Annheilwng**: sef bod ei heuogfarn am drosedd yn groes i adran 1(1) a (3) Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, ynghyd â'r ymddygiad sylfaenol, wedi dod anfri ar y gwasanaeth heddlu a thanseilio hyder y cyhoedd mewn plismona.

## Cyngor Cyfreithiol

Nid oedd angen cyngor cyfreithiol arnaf ar gyfer y mater hwn.

**Casgliadau**

Yn ôl yr hyn sy'n debygol, rwyf yn dod i'r casgliad y gellir profi'r honiad hwn.

Fy man cychwyn ydy fod y cyn DI Gardner wedi'i heuogfarnu yn dilyn achos llys troseddol ger bron Llys y Goron. Mae'r euogfarn honno'n rhoi prawf pendant fod yr ymddygiad wedi digwydd. Nid yw felly'n angenrheidiol nac yn briodol i'r gwrandawiad hwn ailedrych ar y casgliadau ffeithiol sydd eisoes wedi'u penderfynu gan reithgor wrth roi'r safon prawf troseddol.

Mae'r dystiolaeth ger fy mron yn cadarnhau bod y cyn DI Gardner yn fwriadol wedi achosi mynediad i systemau cyfrifiadurol yr heddlu heb awdurdod cyfreithlon dros gyfnod o oddeutu naw mis. Roedd y camymddygiad yn cynnwys mynediad mynych at systemau'r heddlu a chofnodion yn ymwneud hefo unigolion a oedd hi'n eu hadnabod yn bersonol, ynghyd â dadlennu gwybodaeth a gafwyd o'r systemau hynny. Gwnaeth yr achos llys troseddol arwain at euogfarn am gael mynediad anawdurdodedig i systemau gwybodaeth yr heddlu.

Ymddiriedir swyddogion heddlu hefo mynediad at wybodaeth hynod sensitif. Rhoddir y mynediad hwnnw'n bennaf at ddibenion plismona cyfreithlon ac fe'i sylfaenir ar ymddiriedaeth. Mae gan y cyhoedd, dioddefwyr, tystion a chydweithwyr hawl i ddisgwyl y ceir mynediad at wybodaeth yr heddlu ond pan mae diben cyfreithlon a phlismona iawn dros wneud hynny.

Nid oedd y cyn DI Gardner yn swyddog iau. Roedd hi yn rheng Ditectif Arolygydd ac roedd hi mewn swydd lle roedd cyfrifoldeb ac awdurdod sylweddol. Fel uwch swyddog, roedd disgwyl iddi nid yn unig gydymffurfio hefo safonau proffesiynol ei hun ond bod yn esiampl i bobl eraill.

Mae'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol yn gofyn i swyddogion heddlu ymddwyn mewn modd sydd ddim yn dwyn anfri ar y gwasanaeth heddlu neu danseilio hyder y cyhoedd mewn plismona, boed ar neu oddi ar ddyletswydd. Rwyf yn dod i'r casgliad fod swyddog heddlu a euogfarnwyd am drosedd yn cynnwys mynediad at systemau'r heddlu wedi ymddwyn mewn ffordd sy'n niweidio enw da'r gwasanaeth heddlu ac yn gallu tanseilio hyder y cyhoedd mewn plismona.

Rhaid i'r cyhoedd allu ymddiried y bydd swyddogion heddlu'n defnyddio systemau'r heddlu'n briodol ac yn gyfreithlon. Mae euogfarn yn codi o fynediad anawdurdodedig mynych at wybodaeth heddlu gyfrinachol yn taro'r ymddiriedaeth honno'n uniongyrchol. Mae ymddygiad o'r fath yn gwbl anghydnaws hefo'r safonau proffesiynol a moesegol sy'n ddisgwyliedig gan swyddog heddlu.

Felly, rwyf yn dod i'r casgliad fod y cyn DI Gardner wedi torri'r Safon Ymddygiad Proffesiynol o ran Ymddygiad Annheilwng.

**Asesu Difrifoldeb**

Wrth asesu difrifoldeb, rwyf wedi gorfod ystyried Canllawiau Statudol y Swyddfa Gartref, y Cod Moeseg, a'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol.

Mae Paragraff 2.15 o Ganllawiau'r Swyddfa Gartref yn mynegi'n glir y gellir dwyn anfri ar y gwasanaeth heddlu drwy'r weithred ei hun neu lle mae hyder y cyhoedd mewn plismona'n cael

ei danseilio neu canfyddir ei fod yn cael ei danseilio. Mae'n cydnabod hefyd os ydy swyddog heddlu wedi'u heuogfarnu o drosedd, gall yr euogfarn honno ei hun gyfiawnhau disgyblu. Ym mhob achos, rhaid mynegi'n glir sut mae'r ymddygiad yn dwyn anfri ar y gwasanaeth heddlu.

Mae'r Cod Moeseg yn nodi fod rhaid i swyddog heddlu gynnal y safonau ymddygiad uchaf bob amser ac ystyried a all eu gweithrediadau arwain at aelodau o'r cyhoedd yn colli ymddiriedaeth a hyder yn y proffesiwn plismona. Nid ydy'r asesiad wedi'i gyfyngu i sylw'r wasg ond mae angen ystyried yr holl amgylchiadau.

Yn yr achos hwn, rwyf yn canfod y ffactorau canlynol yn benodol o bwys:

- Arweiniodd yr ymddygiad at euogfarn droseddol yn dilyn achos yn Llys y Goron lle cafwyd dadleuon.
- Digwyddodd y mynediad anawdurdodedig i systemau'r heddlu yn fynych dros gyfnod hirfaith.
- Nododd yr ymchwiliad bod mynediad at gofnodion wedi digwydd nifer o weithiau ar adegau gwahanol heb ddiben plismona.
- Roedd y swyddog yn rheng uwch Ditectif Arolygydd ac mewn swydd ddibynadwy a chyfrifol.
- Roedd y camymddygiad yn cynnwys mynediad at wybodaeth heddlu gyfrinachol ac ymddygiad a oedd yn anghydnaws hefo'r safonau disgwyliedig gan y rhai hynny a ymddiriedir i fod hefo data sensitif.
- Roedd yr ymddygiad yn fwriadol, mynych, a bwriadol yn hytrach nag anfwriadol a neilltuol.

Rwyf yn cydnabod fod y cyn swyddog wedi cyfaddef i'r ymddygiad, gan dderbyn ei fod yn gamymddwyn difrifol ac mae wedi ymddiswyddo o'r gwasanaeth heddlu. Fodd bynnag, nid ydy'r materion hynny'n lleihau difrifoldeb cynhenid yr ymddygiad troseddol ei hun.

Yn fy mhenderfyniad, byddai aelod rhesymol a gwybodus o'r cyhoedd yn bryderus iawn fod uwch swyddog heddlu wedi cael mynediad i systemau'r heddlu yn fynych heb awdurdod ac wedi hynny wedi cael eu heuogfarnu o drosedd yn codi o'r ymddygiad hwnnw. Mae gan ymddygiad o'r fath bosibilrwydd clir o danseilio hyder yn uniondeb systemau gwybodaeth yr heddlu, swyddogion unigol, a'r gwasanaeth heddlu ehangach.

**Penderfyniad**

Gan ddod â'r materion hyn at ei gilydd, mae ymddygiad y cyn DI Gardner yn dangos toriad difrifol o'r Safon Ymddygiad Proffesiynol yn ymwneud hefo ymddygiad annheilwng.

Rwyf yn fodlon fod ei hymddygiad troseddol, gan ddod i benllanw hefo euogfarn am gamddefnyddio cyfrifiaduron, wedi dwyn anfri ar y gwasanaeth heddlu a thanseilio hyder y cyhoedd mewn plismona.

Rhaid i'r cyhoedd gael hyder y bydd gan swyddogion heddlu fynediad a byddant yn defnyddio gwybodaeth yr heddlu'n gyfreithlon, yn gyfrifol, ac ond at ddibenion plismona cyfreithlon yn unig.

Roedd ymddygiad y cyn DI Gardner yn anghydnaws hefo'r disgwyliadau hynny ac hefo'r safonau angenrheidiol a ddisgwylid gan swyddog heddlu sy'n gwasanaethu.

Rwyf yn fodlon fod yr ymddygiad yn cynnwys camddefnyddio'r ymddiriedaeth a osodwyd ar swyddogion heddlu yn ddifrifol ac mae wrth galon hyder y cyhoedd mewn uniondeb plismona.

Am y rhesymau hynn ac am ystyried holl amgylchiadau'r achos, rwyf yn dod i'r casgliad yn ôl yr hyn sy'n debygol fod yr ymddygiad yn cyfateb i gamymddwyn difrifol.

**Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman KPM**
**17 Awst 2026**